Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cafcass Cymru

# Rhywedd a Chamdriniaeth

Mai 2025



llyw.cymru

# Cynnwys


1 Rhywedd a Chamdriniaeth

2 Dioddefwyr-Oroeswyr Gwrywaidd

3 Dioddefwyr-Oroeswyr LHDTC+

4 Model Safe & Together™ a Rhywedd


OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52047, ISBN digidol 978-1-83715-706-8

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhywedd a Chamdriniaeth

Gall cam-drin domestig effeithio ar unrhyw un mewn perthnasoedd personol neu gydberthnasau teuluol, ac mae Cafcass Cymru yn cydnabod y gall pobl o bob hunaniaeth rhywedd gael eu cam-drin neu gam-drin eraill. Rhaid i unrhyw ddatgeliadau o gam-drin gael eu cymryd o ddifrif a rhaid delio ag achosion o'r fath mewn ffordd sensitif. Mae ymchwil yn dangos yr effeithir yn anghymesur ar fenywod a merched, gydag 1 o bob 3 menyw[1] yn fyd-eang yn dioddef trais corfforol neu drais rhywiol yn ystod eu hoes. Yng Nghymru, mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn cydnabod natur ryweddol camdriniaeth yn benodol ac yn canolbwyntio ar atal trais gan ddynion a bechgyn yn erbyn menywod a merched drwy addysg a chydweithredu.

Mae Arolwg Troseddu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol[2] hyn helpu i amcangyfrif pa mor gyffredin yw achosion ond nid yw'n cofnodi'r cyd-destun llawn na dynameg bŵer camdriniaeth.

Mae ymchwil Evan Stark ar reolaeth drwy orfodaeth yn nodi'r ffordd y mae anghydraddoldeb rhywedd strwythurol a rolau rhywedd traddodiadol yn gwneud menywod yn fwy agored i niwed. Mae ei waith yn adeiladu ar waith ysgolheigion ffeministaidd allweddol megis Lenore E. Walker (1979), Betsy Warrior (1970au), Del Martin (1976), Sheila Rowbotham (1980s), Susan Schechter (1983), Patricia Evans (1996), a Jacqueline Campbell (1990au), a osododd y sylfaen ar gyfer deall rheolaeth drwy orfodaeth.

> "Coercive control is a pattern of behaviour that seeks to take away the victim's liberty or freedom, to strip away their sense of self. It is rooted in gendered power dynamics, historically and socially constructed, making it a crime that disproportionately affects women."
>
> (Stark, 2007)[3]

Nid yw cydnabod natur ryweddol cam-drin domestig yn gwadu profiadau dioddefwyr-oroeswyr gwrywaidd. Mae'n sicrhau bod asesiadau yn cael eu teilwra, eu bod yn gynhwysol ac yn ymatebol i anghenion unigol, gan ystyried profiadau a rhwystrau sy'n benodol i rywedd.

---

1 Devastatingly pervasive: 1 in 3 women globally experience violence (who.int)
2 Why data matters when talking about domestic abuse – Women's Aid (womensaid.org.uk)
3 "Coercive Control: How Men Entrap Women in Personal Life (Interpersonal Violence)" – Evan Stark

# Dioddefwyr-Oroeswyr Gwrywaidd

Mae elusen Respect yn darparu adnoddau helaeth ar gyflawnwyr o bob hunaniaeth a dioddefwyr-oroeswyr gwrywaidd. Mewn teuluoedd rydym yn dod ar eu traws, bydd llawer o blant yn fechgyn sydd hefyd yn ddioddefwyr-oroeswyr camdriniaeth.

Mae'n bosibl y bydd dioddefwyr-oroeswyr gwrywaidd yn llai tebygol o adnabod neu ddatgelu achosion o gam-drin oherwydd stigma.[4&5] Mae normau cymdeithasol yn awgrymu y dylai dynion a bechgyn guddio teimladau fel poen, ofn neu drallod (boed yn gorfforol neu'n emosiynol) mewn ymgais i ddangos gwrywdod. Mae adroddiadau hefyd fod dynion yn credu y gall datgelu achosion o gam-drin yn eu herbyn beri i weithwyr proffesiynol feddwl mai nhw yw'r sawl sy'n cam-drin. Gall y rhwystrau hyn atal dynion rhag ceisio cymorth ac effeithio ar ymatebion proffesiynol.[6&7]

Mae normau cymdeithasol caeth sy'n gysylltiedig â rhywedd yn niweidiol i fenywod, ond maent yr un mor niweidiol i ddynion. Canfu ymchwil gan Westmarland a Burrell (2023)[8] fod dynion sy'n ystyried eu bod mewn 'Blwch Dynion' (h.y. yn uniaethu â syniadau ystrydebol iawn o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn 'ddyn go iawn', neu sut y dylent ymddwyn) yn fwy tebygol o brofi lefelau isel o iechyd meddyliol a rhywiol, o ystyried hunanladdiad, o fod yn rhan o ddamweiniau traffig, o brofi diffyg diddordeb neu bleser mewn gwneud pethau a'u bod yn fwy tebygol o fod wedi bwlio rhywun yn gorfforol neu ar lafar. Mae'r canfyddiadau hyn hefyd yn atgyfnerthu'r syniad y gall dynion deimlo pwysau i guddio eu profiadau o gamdriniaeth oherwydd disgwyliadau cymdeithas o ran gwrywdod.

I gael rhagor o wybodaeth a chanllawiau, cyfeiriwch at becyn cymorth Respect y ceir dolen iddo isod. Mae'r pecyn cymorth hefyd yn esbonio matrics Respect, sy'n helpu'r elusen i wneud penderfyniadau pan fydd yn ymdrin â dioddefwyr-oroeswyr trais gan bartner personol neu gyflawnwyr trais:

Pecyn Cymorth Respect i Ddioddefwyr Gwrywaidd

## Llinell Gyngor Respect i Ddynion

I ddioddefwyr-oroeswyr sy'n uniaethu fel gwryw geisio cyngor a chymorth arbenigol.

Llinell Gymorth Cam-drin Domestig i Ddynion – Men's Advice Line UK

4 Help Seeking Experiences of Survivors of Intimate Partner Violence in Canada: the Role of Gender, Violence Severity, and Social Belonging | Journal of Family Violence
5 "No one would ever believe me": An exploration of the impact of intimate partner violence victimization on men.
6 What About the Men? A Critical Review of Men's Experiences of Intimate Partner Violence – Kelly Scott-Storey, Sue O'Donnell, Marilyn Ford-Gilboe, Colleen Varcoe, Nadine Wathen, Jeannie Malcolm, Charlene Vincent, 2023 (sagepub.com)
7 Help-seeking by male victims of domestic violence and abuse (DVA): a systematic review and qualitative evidence synthesis | BMJ Open
8 'I'm a red-blooded male': Understanding men's experiences of domestic abuse through a feminist lens – Nicole Westmarland, Stephen R Burrell, 2023 (sagepub.com)

# Dioddefwyr-Oroeswyr LHDTC+


Gall pobl LHDTC+ brofi mathau o drais domestig sy'n debyg i bobl heterorywiol/cisryweddol, gan gynnwys rheolaeth drwy orfodaeth, ac maent yn profi achosion o'r fath.

Gall unigolion LHDTC+ wynebu nifer o heriau a nodweddion agored i niwed sy'n croestorri, gan gynnwys gwahaniaethu, a all gynyddu'r ffactorau risg yn eu hachosion.[9]

Byddwn yn cyfarfod â rhai teuluoedd â rhieni sydd o'r un rhyw, rhieni sy'n anneuaidd neu rieni sy'n drawsryweddol a/neu lle ceir plant â'r nodweddion hyn; felly mae'n hanfodol ein bod yn sensitif i'r heriau ychwanegol y gallant eu hwynebu.

## Galop

Elusen yn y DU yw Galop sy'n cefnogi pobl LHDTC+ sydd wedi cael profiad o gam-drin a thrais. Mae'n gweithredu llinell gymorth sydd hefyd ar agor i weithwyr proffesiynol gael cyngor pellach.



9 Galop_domestic abuse.indd

# Model Safe & Together™ a Rhywedd

Mae Cafcass Cymru wedi ymrwymo i ddilyn model ymarfer Safe & Together™ gyda theuluoedd sy'n dod i'r llys teulu.

Yn ôl ymchwil i normau cymdeithasol (Schmidt, E. *et al*, 2022)[10] ac adroddiadau helaeth gan ddefnyddwyr llysoedd teulu (Harm Report, 2020)[11] disgwylir yn systematig i famau arfer safonau uwch na thadau o ran magu plant ac atebolrwydd pan ystyrir pethau fel llesiant, diogelwch ac iechyd plentyn/plant.

Mae adroddiad Prifysgol Rhydychen (2024), sy'n seiliedig ar ymchwil mewn chwe gwlad Ewropeaidd, yn ystyried profiadau dioddefwyr-oroeswyr mewn llysoedd teulu a'r ymatebion cyfiawnder teuluol canlyniadol. Mae'r canfyddiadau yn tynnu sylw at y disgwyliadau anghyfartal a roddir ar famau o gymharu â thadau o ran darparu gofal. Roedd llawer o oroeswyr yn teimlo bod eu pryderon amddiffyn plant yn cael eu diystyru ymhellach, ac mai nhw oedd yn cael y bai oherwydd y disgwyliadau uwch hyn.[12] Mae ymarfer Safe & Together™ yn canolbwyntio ar gydbwyso'r disgwyliad hwn fel bod safonau uchel o ran magu plant yn ddisgwyliedig gan y ddau riant.

Mae David Mandel, Prif Swyddog Gweithredol Sefydliad Safe & Together yn trafod rhywedd a safonau dwbl yn y blog y ceir dolen iddo isod. Mae model Safe & Together™ yn annog ymarferwyr Cafcass Cymru i godi'r safonau o ran yr hyn a ddisgwylir gan gyflawnwyr yn sylweddol; rhoi terfyn ar drais a chamdriniaeth yw'r gofyniad sylfaenol, dylid anelu at eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am y niwed a achoswyd er mwyn cyflawni newid parhaol.

Y dull gweithredu:

- Tynnu sylw at safonau dwbl rhyweddol o ran magu plant.
- Adnabod trawma ac achosion parhaus o reoli drwy orfodaeth.
- Herio perthnasedd "dieithrio plentyn oddi wrth riant".
- Herio datganiadau a wneir gan gyflawnwyr cam-drin domestig yn erbyn goroeswyr.
- Mapio'r ffordd y mae camdriniaeth yn effeithio ar bob agwedd ar ddatblygiad plant.
- Dathlu ymdrechion pob dydd goroeswyr i gymryd camau amddiffyn.
- Mynnu atebolrwydd a newid go iawn gan gyflawnwyr.
- Cydweithio â rhieni sy'n amddiffyn er mwyn sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn ffynnu.

Rethinking Children's Best Interests: Moving Beyond Trauma and Tackling Gender Double Standards (Safe & Together Institute)

10 What makes a good mother? Two decades of research reflecting social norms of motherhood – Schmidt – 2023 – Journal of Family Theory & Review – Wiley Online Library
11 Asesu'r Risg o Niwed i Blant a Rhieni mewn Achosion Plant Cyfraith Breifat (publishing.service.gov.uk)
12 Family_Justice_Response_Domestic_Abuse_Portrait_A4_English-Digital (2).pdf